# Protocol Trin Data | Data Use Protocol

Mehefin 2023

## Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae trin gwybodaeth bersonol yn gywir gan e-sgol yn bwysig iawn i ddarparu ein gwasanaethau a chynnal gonestrwydd a phroffesiynoldeb. e-sgol yw rheolydd data'r wybodaeth bersonol y mae ysgolion a sefydliadau eraill yn ei darparu i ni. Mae hyn yn golygu mai e-sgol sy'n pennu at ba ddibenion, a'r modd y mae unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â myfyrwyr a staff i'w brosesu.
Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth.
Bydd cydymffurfio â'r ddogfen hon yn cynorthwyo e-sgol i fodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Ewropeaidd (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) sy'n cyd-fynd ag ef.

## Dibenion defnyddio'r data

Mae e-sgol yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd at y dibenion isod:

- Rhoi mynediad i ddysgwyr at gyfleoedd dysgu, gan gynnwys mynediad i Hwb, y Llwyfan Dysgu Digidol Cenedlaethol;
- Rhannu gwybodaeth a fydd yn cefnogi'r myfyrwyr gyda'u cwrs;
- Adnabod tueddiadau a fydd yn cefnogi twf e-sgol – gan gynnwys Carlam Cymru ac Ymlaen Gyda'r Dysgu;
- Adrodd a gwerthuso effeithiolrwydd e-sgol.

**Ni chyhoeddir unhryw ddata ble y bydd modd adnabod myfyrwyr unigol.**

## Pa fath o wybodaeth a ddefnyddir?

Rydym yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol:

- Enw;
- Cyfeiriad;
- Dyddiad Geni;
- Rhyw;
- Cyfeiriad ebost;
- Ysgol;
- Cofnodion asesu;
- Cofnodion presenoldeb;
- Delweddau:
- Recordiadau gwersi.

## A ddefnyddir gwybodaeth a dderbynir gan ffynonellau eraill?

Daw'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol a gawn gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys;

- Myfyrwyr (e-sgol Pupil Agreement Form 2022-23)
- Ysgolionion
- Athrawon
- Awdurdodau Lleol perthnasol

Gellir cael y mathau canlynol o ddata personol i gefnogi prosesau gwerthuso e-sgol;

- Asesiadau/ Canlyniadau Profion
- Canlyniadau TGAU, UG, Safon Uwch neu gyfwerth
- Gwybodaeth am bresenoldeb

## Pwy sydd gan fynediad at y wybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth bersonol a gesglir yn cael ei rannu â'r derbynwyr canlynol, yn dibynnu ar eich amgylchiadau:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod lleol perthnasol a'r ysgolion cysylltiol
- Rhwydwaith Seren

Dim ond at ddiben penodol y bydd e-sgol yn darparu data i sefydliad arall. Rhaid i unrhyw ddadansoddiadau/gwerthusiad ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru i sicrhau na ellir adnabod myfyrwyr unigol.

## Am ba hir y cedwir y wybodaeth?

Bydd e-sgol yn cadw gwybodaeth y myfyriwr tan ben-blwydd y myfyriwr yn 25 oed neu am gyfnod y meini prawf sy'n sail i'r rheoliad statudol. Ar ôl y pwynt hwn, bydd y data'n cael eu gwneud yn ddienw yn unol ag arferion gorau ac yn cael eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

## Trefniadaeth Hwb

Rydym yn annog i holl gyrsiau e-sgol gael eu hwyluso a'u cynnal trwy Hwb, y Llwyfan Dysgu Digidol Cenedlaethol. Mae Hwb yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, ac mae ganddo ei hysbysiad preifatrwydd ei hun sy'n nodi sut maen nhw'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol wrth ymweld â'u gwefan. Cliciwch **yma** i weld hysbysiad preifatrwydd Hwb a sut maen nhw'n rheoli eich hawliau i'r wybodaeth bersonol a gedwir am eich myfyrwyr.

## Eich hawliau yn sgil Deddf Diogelu Data (2018) a GDPR

Mae gennych yr hawl i:

- gael mynediad at y data personol y mae'r ysgol yn ei brosesu amdanoch;
- weld a oes unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn wedi'i chywiro;
- dynnu eich caniatâd i brosesu yn ôl, lle mai dyma'r unig sail ar gyfer prosesu;
- wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), y corff annibynnol yn y DU sy'n diogelu hawliau gwybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hawl i:

- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol;
- Dileu eich data personol;
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol;
- Hygludedd data (sy'n rhoi'r hawl i chi dderbyn data personol a ddarparwyd gennych i'r ysgol mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei ddarllen gan beiriant).